**COFNODION O GYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD DDYDD IAU, 22 CHWEFROR 2018**

YN BRESENNOL
Cynghorydd Sir D E Davies (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, B Baynham, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, D O Evans, J Evans, L Fitzpatrick, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, E A Jones, D R Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, P E Lewis, MC Mackenzie, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Mills, G Morgan, JG Morris, R Powell, WD Powell, D R Price, GD Price, P C Pritchard, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, D Selby, K S Silk, D A Thomas, R G Thomas, E Vaughan, M Weale, J Wilkinson, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams, R Williams ac S L Williams

## 1. YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb i law oddi wrth y Cynghorwyr Sir E Durrant, A Jenner, S Lewis, N Morrison a T Van-Rees.

## 2. COFNODION

Yn amodol ar gynnwys enw'r Cynghorydd David Meredith yn y rhestr o aelodau a oedd yn bresennol, awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2018 fel cofnod cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANNAU

Fe wnaeth y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan a Michael Williams ddatgan buddiannau personol diragfarn yn yr eitem ar drosglwyddiad cyfalaf ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen fel llywodraethwyr a benodwyd gan yr awdurdod lleol yn yr ysgol.

## 4. ADRODDIAD Y PANEL CRAFFU CYLLID AR Y GYLLIDEB

Cyflwynodd y Cynghorydd Sir John Morris, Cadeirydd y Panel Craffu Cyllid, adroddiad y Panel ar y gyllideb. Esboniodd fod y Panel yn rhwystredig iawn oherwydd iddo gael y wybodaeth mor hwyr gan fod hynny wedi'i rwystro rhag craffu arno'n ddigonol ac a oedd yn golygu bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor ar unwaith yn hytrach nag i'r Cabinet i ddechrau.

Amlinellodd bryder y Panel gyda'r gyllideb gan dynnu sylw at nifer o feysydd risg yn enwedig o safbwynt targedau arbedion, y ddibyniaeth ar fesurau cyfrifo unwaith ac am byth, lefel y Dreth Gyngor, yr MRP, ac oherwydd bod meysydd

gwasanaeth eraill yn cael eu rhoi yn y fantol oherwydd y cyllid ychwanegol a roddid i'r Gwasanaethau Plant, y gorwario mewn ysgolion a'r anwybodaeth ynglŷn â chostau'r trawsnewid. Gofynnodd i bob aelod fynd ati i graffu'n adeiladol.

I ymateb, esboniodd y Deilydd Portffolio Cyllid fod y gyllideb wedi'i mantoli ym mis Hydref ond y bu'n rhaid ei hailwampio i roi adnoddau ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant yn dilyn yr arolygiad ac y dosbarthwyd y wybodaeth at y Panel Craffu Cyllid cyn gynted ag yr oedd ar gael. Dywedodd fod y Cabinet yn dechrau gweithio ar gyllideb y flwyddyn nesaf ar unwaith, a bod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael ei hailysgrifennu ac i fod i gael ei chwblhau ym mis Mai. Dywedodd fod CIPFA wedi canmol y broses gyllidebu ac na chafwyd dim sylwadau anffafriol gan Swyddfa Archwilio Cymru ar yr MRP.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Panel Craffu Cyllid.**

Newidiodd y Cadeirydd drefn yr agenda i gymryd yr eitem ar Lythyr Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru nesaf.

| | |
|---|---|
| **5.** | **LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU 2016-17** |

Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y llythyr a gyfeiriai at y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2017 yn cynnwys yr argymhelliad statudol canlynol:

*Er mwyn pennu cyllideb gytbwys, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr holl gynlluniau arbedion wedi'u datblygu'n ddigonol i'w cynnwys yn y gyllideb flynyddol. Rhaid i'r Cyngor hefyd weithredu ar unwaith i ddiweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig er mwyn galluogi'r Cyngor i fyw o fewn ei fodd i'r dyfodol, a dylunio a chymryd camau i roi sylw i'r gwendid a welwyd ac adrodd wrthyf fi ynglŷn â'i drefniadau ariannol a chorfforaethol.*

Yn unol â'r argymhelliad statudol, roedd y cyngor (cyn derbyn y llythyr) eisoes wedi cydnabod yr angen i lunio Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddiwygiedig erbyn diwedd mis Mai 2018. Hefyd, roedd gwelliannau yn y prosesau cynllunio Ariannol a Strategol hefyd yn cael eu cyflawni a'u monitro drwy'r Cynllun Llywodraethu Corfforaethol ac Arweinyddiaeth newydd.

Roedd y camau gweithredu oedd yn cael eu cymryd mewn ymateb i'r argymhelliad statudol i'w gweld yn Atodiad B yr adroddiad. Cyfeiriai Atodiad B hefyd at y cynigion ar gyfer gwella y gwnaeth SAC eu cyhoeddi yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-17 (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017) a chynhwysai fanylion y camau gweithredu a gymerwyd eisoes drwy gyfrwng cynlluniau gweithredu un pwrpas.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod y Pwyllgor wedi cyfarfod i ystyried y llythyr ac y byddai cofnodion y cyfarfod hwnnw yn cael eu cylchredeg.

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Rosemarie Harris ac o 64 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **1. Bod y Cyngor yn ystyried canfyddiadau SAC fel y'u nodir yn Llythyr Archwilio Blynyddol 2016-17 ac yn derbyn yr Argymhelliad Statudol.**<br><br>**2. Bod y Cyngor yn cefnogi gweithredu'r cynllun gweithredu yn Atodiad B fel ymateb y Cyngor i argymhellion SAC.** | **I sicrhau bod y Cyngor yn rhoi sylw i'r argymhellion a noda SAC a bod ganddo gynlluniau cadarn ar waith i wella ei drefniadau llywodraethu corfforaethol ac ariannol.** |

| 6. | CYLLIDEB AR GYFER 2018-19, STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2018-2023 A'R RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2018-2023 |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn ystyried y gyllideb ar gyfer 2018/19, y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2018 - 2023 a Rhaglen Gyfalaf 2018 - 2023. (Copi wedi'i ffeilio gyda'r cofnodion llofnodedig).

Amlinellodd y Deilydd Portffolio Cyllid strategaeth y Cabinet ar gyfer y gyllideb a oedd yn cynnwys buddsoddiad sylweddol yn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion ac yn y rhaglen gyfalaf. Cydnabu'r risg yn 2019/20 os oedd y Cyngor am wneud yr arbedion gofynnol a rhybuddiodd na allai'r Cyngor barhau ar ei ffurf bresennol a bod gweddnewidiad sylweddol yn ofynnol. Dywedodd fod y gwaith hwn eisoes yn mynd rhagddo. Cynigiwyd cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor a fyddai'n codi £3.5m ac a oedd yn cyfateb i £56 yn ychwanegol y flwyddyn i eiddo Band D. Cynigiodd yr argymhellion yn adroddiad y gyllideb, ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd L Corfield am 11.40.
Cyrhaeddodd y Cynghorydd Michael J Jones am 11.45.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt welliant, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir David Selby gan newid argymhelliad 2 yn yr adroddiad i:

"Bod y Gyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2018/19 yn cael ei diwygio fel a ganlyn -

1. Bod y gofyn i arbed £220,000 o gyllideb y Gwasanaeth Ieuenctid yn 2018/19 yn cael ei leihau i ddim
2. Bod yr ymgodiad i gyllidebau dirprwyedig ysgolion yn cael ei gynyddu o £1m i £2m
3. Bod y lefel Cyflog Byw yn cael ei chynyddu i holl weithwyr y cyngor sir sy'n ei chael yn unol â'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Sefydliad Cyflog Byw
4. Bod cyfanswm y cyllid cynyddol a neilltuwyd ar gyfer gofal cymdeithasol yn 2018/19 yn cael ei newid o'r £10.76m arfaethedig i £8.36m

a newid argymhelliad 5 i:

"Bod cynnydd o 3.75% yn y Dreth Gyngor yn cael ei gynnwys yn y gyllideb a'i gymeradwyo."

Dadleua'r cynigydd mai addasiad cymharol fach i'r gyllideb yw hwn i gynorthwyo gwasanaethau megis ysgolion a'r gwasanaeth ieuenctid a oedd yn cefnogi'r gwasanaethau cymdeithasol drwy ymyrraeth gynnar. Dadleua fod angen gweithredu ar gyllidebau ysgolion ar unwaith a dywedodd nad oedd yr aelodau yn dal heb gael gwybodaeth am gyllidebau ysgolion unigol. Trafododd y Cyngor y gwelliant, a gollodd ar ôl ei roi i bleidlais, o 12 pleidlais i 53 gyda 2 yn ymatal.

Yna trafododd y Cyngor yr argymhellion yn yr adroddiad. Mewn ymateb i gwestiwn gan un o'r aelodau, cadarnhawyd bod un awdurdod arall yng Nghymru a nifer o awdurdodau yn Lloegr wedi gweithredu yn yr un modd o safbwynt y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Dywedodd nifer o aelodau na allent gefnogi'r gyllideb. Beirniadodd Arweinydd y grŵp Llafur y cynigion i wneud toriadau i wasanaethau cyhoeddus a pheidio â chynyddu'r Cyflog Byw yn unol ag argymhellion y Sefydliad Cyflog Byw.

Pleidleisiodd y Cyngor ar yr argymhellion a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander.

Argymhelliad 1: o 46 pleidlais i 22

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **1. Cytuno mewn egwyddor ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2018 i 2023 fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.** | **I helpu i wneud cynlluniau a datblygiadau busnes dros gyfnod tair blynedd.** |

Argymhelliad 2: o 46 pleidlais i 22

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **2. Cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2018/19 a welir yn y Model Adnoddau Ariannol yn Atodiad 2.** | **Gofyn Statudol** |

Argymhelliad 3: o 45 pleidlais i 22

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **3. Cymeradwyo'r Ffioedd a'r Taliadau a gynigir yn y Gofrestr Ffioedd a Thaliadau. (Atodiad 4 a 5)** | **Er mwyn cydymffurfio â Pholisi Incwm Cyngor Sir Powys** |

Argymhelliad 4: o 53 pleidlais i 14

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **4. Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf arfaethedig ar gyfer** | **Gofyn Statudol** |

| | |
|---|---|
| **2018/19 a welir yn Atodiad 6.** | |

Argymhelliad 5: o 44 pleidlais i 22 gydag un 1 yn ymatal

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **5. Cynnwys cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor yn y gyllideb a'i gymeradwyo.** | **Mae pennu'r Dreth Gyngor yn un o'r Gofynion Statudol er mai mater i benderfynu arno'n lleol yw'r lefel.** |

Argymhelliad 6: o 50 pleidlais i 14

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **6. Cymeradwyo'r terfyn benthyca awdurdodedig ar gyfer 2018/19 fel sy'n ofynnol dan Adran 3(1) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ar £400.0m fel y nodir yn Adran 10 o'r adroddiad.** | **Gofyn Statudol** |

Argymhelliad 7: o 54 pleidlais i 13

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **7. Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2018/19 fel y'u nodir yn Adran 10 o'r adroddiad ac Atodiad 7.** | **Gofyn Statudol** |

Argymhelliad 8: o 54 pleidlais i 12

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **8. Bod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddiwygiedig yn cael ei dwyn ymlaen erbyn diwedd Mai 2018.** | **Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn ei fodd i'r dyfodol.** |

Torrodd y Cyngor o 12.58 tan 13.50.

YN BRESENNOL
Cynghorydd Sir D E Davies (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, B Baynham, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, D O Evans, J Evans, L Fitzpatrick, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes,

H Hulme, E A Jones, D R Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, P E Lewis, MC Mackenzie, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Mills, G Morgan, JG Morris, R Powell, WD Powell, D R Price, GD Price, P C Pritchard, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, D Selby, K S Silk, D A Thomas, R G Thomas, E Vaughan, M Weale, J Wilkinson, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams, R Williams ac S L Williams

## 7. TROSGLWYDDIADAU CYFALAF

7.1. **Trosglwyddiad ar gyfer Adnewyddu Tŷ Ladywell**

Y trosglwyddiad oedd bwrw ymlaen y gyllideb ar gyfer adnewyddu Tŷ Ladywell i 2018/19. Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Rosemarie Harris ac o 52 pleidlais i 2

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r trosglwyddiad canlynol am £1m i adnewyddu Tŷ Ladywell** | **Er mwyn sicrhau bod trosglwyddiadau priodol yn cael eu gwneud sy'n adlewyrchu'r gwariant cyfalaf amcanestynedig.** |

7.2. **Trosglwyddiad ar gyfer adeilad Ysgol Bro Hyddgen yn lle'r Ysgol Gynradd a'r Ysgol Uwchradd**

Roedd y Cynghorwyr Sir Elwyn Vaughan a Michael Williams wedi datgan buddiannau personol ond nid ariannol fel llywodraethwyr sydd wedi'u penodi gan yr awdurdod lleol. Ar gyfer Ysgol Bro Hyddgen yr oedd y trosglwyddiad ac nid fel y mae wedi'i argraffu yn yr adroddiad a'r agenda ac er mwyn treiglo ymlaen y gyllideb ar gyfer yr ysgol newydd i 2018/19. Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander ac o 52 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r trosglwyddiad canlynol**<br>• **£1.091m Prosiect trawsnewid ysgolion yn Ysgol Bro Ddyfi** | **Er mwyn sicrhau bod trosglwyddiadau priodol yn cael eu gwneud sy'n adlewyrchu'r gwariant cyfalaf amcanestynedig.** |

## 8. YMESTYN TYMOR MEWN SWYDD YR AELOD ANNIBYNNOL (LLEYG) AR Y PWYLLGOR SAFONAU

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried ailbenodi Mrs Jacqueline Evans yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod pedair blynedd arall. Esboniodd y Twrnai wrth y Cyngor fod Mrs Evans wedi cael ei phenodi yn dilyn hysbyseb ac mai trefn arferol y Cyngor oedd ailbenodi nes bod y cyfnod hiraf mewn swydd, sef 10 mlynedd, wedi'i wasanaethu.

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Kath Roberts-Jones a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Maureen Mackenzie ac o 60 pleidlais i 0 gydag 1 yn ymatal

| PENDERFYNWYD | RHESWM AM Y PENDERFYNIAD |
|---|---|
| **Bod y Cyngor yn ailbenodi Mrs Jacqueline Evans yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am dymor pedair blynedd a ddaw i ben ar 2il Mawrth 2022.** | **Er mwyn llenwi swydd wag yr Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.** |

| 9. | ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn ystyried argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar hyfforddiant gorfodol i'r Aelodau.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **1. Gwneud hyfforddiant Diogelwch Gwybodaeth a TG a'r Ddeddf Diogelu Data yn orfodol i'r Aelodau gan y Cyngor a**<br><br>**2. Gwneud hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn orfodol i'r Aelodau gan y Cyngor a**<br><br>**3. Bod y Cyngor yn nodi oherwydd bod hyfforddiant Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015 [VAWDASV] wedi'i gynnwys yn y cynllun hyfforddiant [VAWDASV] a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, ei fod yn un o'r gofynion gorfodol i'r Aelodau, a**<br><br>**4. Bod yr aelodau y gwelwyd bod arnynt angen hyfforddiant ac nad ydynt wedi dilyn a phasio'r cyfryw hyfforddiant yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau cydymffurfio misol a ddarperir i'r Swyddog Monitro.**<br><br>**5. Y byddai proses uwchgyfeirio ffurfiol bellach yn dilyn y broses y cytunodd y Cyngor arni ar y** | **1. Er mwyn galluogi Cyngor Sir Powys i gynnwys y cyfryw dystiolaeth o hyfforddiant mewn ymateb i'r corff rheoleiddio pe ceid achos o Aelod etholedig yn tramgwyddo. Hefyd, os bydd gofyn i Aelodau hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth o dramgwydd gwybodaeth y mae'n Rheolydd Data arno, gallant ddefnyddio'r un dystiolaeth.**<br><br>**2. Er mwyn sicrhau bod aelodau yn cyflawni eu rolau mewn ffordd ddiduedd.**<br><br>**3. Er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant ar y Ddeddf Diogelu Data, TG a Diogelwch Gwybodaeth, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a VAWDASV yn cael eu cynnwys yn y rhestr datblygu gorfodol.**<br><br>**4. Er mwyn sicrhau bod y Swyddog Monitro yn gallu trafod gyda'r Aelod(au) y rheswm pam nad yw'r hyfforddiant wedi'i gwblhau.** |

| | |
|---|---|
| **15fed Gorffennaf 2015 yn adroddiad CC68- 2015 Datblygiad Aelodau – Datblygiad Gorfodol ac Anorfodol.** | |

| 10. | PENODIADAU I BWYLLGORAU |
|---|---|

Nododd y Cyngor y penodiadau canlynol i bwyllgorau a wnaed gan grwpiau gwleidyddol ac a gymeradwywyd gan y Swyddog Monitro dan y pŵer dirprwyo cyffredinol a roddwyd gan y Cyngor ar 16 Mai 2013:

Penodwyd y Cynghorydd Sir Gareth Pugh i'r Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy yn lle'r Cynghorydd Sir Mark Barnes.

Penodwyd y Cynghorydd Sir Joy Jones i'r Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 yn lle'r Cynghorydd Sir Ange Williams.

Penodwyd y Cynghorydd Sir Jon Williams i'r Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau yn lle'r Cynghorydd Sir Ange Williams.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Les George ac o 60 pleidlais i 1

**PENDERFYNWYD nodi'r penodiadau.**

| 11. | HYSBYSIADAU O GYNNIG |
|---|---|

11.1. **Hysbysiad o Gynnig – Hawlildio Ffioedd Cofrestru**

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts

"Rydym yn galw ar Gyngor Sir Powys i hawlildio'r gost am gofrestru babanod marw-anedig, marwolaeth babi a fu farw cyn i'w enedigaeth gael ei chofrestru, yn ogystal â phob un arall dan 18 oed."

O 61 pleidlais i 0

**PENDERFYNWYD hawlildio'r gost o gofrestru babanod marw-anedig, marwolaeth babi a fu farw cyn i'w enedigaeth gael ei chofrestru, yn ogystal â phob un arall dan 18 oed.**

11.2. **Hysbysiad o Gynnig - Band Eang**

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies:

"Yng ngoleuni cyhoeddi'r adroddiad gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin sy'n amlygu'r ffaith bod Sir Drefaldwyn ymysg y 10 etholaeth sydd â'r cyflymder band eang

gwaethaf, mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru wrthi iddi ddyfarnu'r contract newydd ar gyfer y buddsoddiad o £80m i ehangu mynediad i fand eang ffibr, i roi blaenoriaeth i Sir Drefaldwyn fel ardal darged allweddol er mwyn sicrhau mynediad i wasanaethau a galluogi i'n heconomi ddatblygu'n gynaliadwy."

Gan nodi bod hwn yn fater sy'n effeithio ar y sir gyfan, cytunodd y cynigydd a'r eilydd i welliant bychan gan nodi Powys yn lle Sir Drefaldwyn ac o 59 pleidlais i 0

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru wrthi iddi ddyfarnu'r contract newydd ar gyfer y buddsoddiad o £80m i ehangu mynediad i fand eang ffibr, i roi blaenoriaeth i Bowys fel ardal darged allweddol er mwyn sicrhau mynediad i wasanaethau a galluogi i'n heconomi ddatblygu'n gynaliadwy.**

11.3. **Hysbysiad o Gynnig - Heart of Wales Property Services Ltd**

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Susan McNicholas ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance

**"Mae'r Cyngor hwn:**

- Yn cydnabod y buddsoddiad y mae'r Cyngor yn ei wneud yn ei Gwmni Cyd-fenter Heart of Wales Property Services LTD;
- Yn cydnabod yr angen i'r Cyngor reoli ei ystâd gorfforaethol;
- Yn cefnogi hawliau tenantiaid y Cyngor i gael gwaith atgyweirio wedi'i wneud mewn fframiau amser rhesymol;
- Yn bryderus ynglŷn â faint o amser y mae'n gymryd i ail-osod tai cyngor gwag ar ôl i denant adael;
- Yn cydnabod y consyrn a godwyd gan drigolion a Chynghorwyr am berfformiad Heart of Wales Property Services LTD ac felly:
-

**Mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo i:**

- Gynnal adolygiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd Heart of Wales Property Services LTD yn ymateb i anghenion tai cymdeithasol ac ystadau Cyngor Sir Powys;
- Ysgrifennu at Fwrdd Heart of Wales Property Services i ofyn am adolygiad o effeithiolrwydd ei swyddogaethau corfforaethol a'i hyfywedd ariannol, gan gyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau i Gyngor Sir Powys fel rhan-berchennog ar y cwmni;
- Sefydlu pwynt cyswllt un pwrpas ar gyfer aelodau etholedig Cyngor Sir Powys sy'n delio â Heart of Wales Property Services LTD;
- Sefydlu peirianwaith adrodd blynyddol ar gyfer Heart of Wales Property Services LTD er mwyn cyflwyno adroddiadau i Gyngor Sir Powys."

Siaradodd nifer o aelodau am eu rhwystredigaeth gyda'r trefniadau, gan gyfeirio at anawsterau'n cysylltu â Heart of Wales Property Services, yn niffyg pwynt cysylltu un pwrpas i Gynghorwyr a'r oedi cyn bo gwaith yn cael ei wneud. Dywedodd y ddau ddeilydd portffolio ar y Bwrdd, er na anghytunent â'r sylwadau a wnaed, fod cynllun adfer wedi cael ei sefydlu a gofynasant i adnoddau beidio â chael eu cyfeirio oddi wrth hwnnw drwy gynnal adolygiad ar hyn o bryd.

Rhoddwyd y cynnig i bleidlais a chollodd o 20 pleidlais i 39.

11.4. **Hysbysiad o Gynnig – Annog menywod i ymgeisio am rolau gwleidyddol**

Yn absenoldeb eilydd y cynnig, gofynnodd y cynigydd a ellid gohirio'r Hysbysiad o Gynnig hwn.

| 12. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

Newidiodd y Cadeirydd drefn yr agenda i gymryd y ddau gwestiwn canlynol yn gyntaf.

12.1. **Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion gan y Cynghorydd Sir David Meredith**

**A yw'r Cyngor yn gwneud asesiadau priodol i sicrhau bod y pecynnau gofal cymdeithasol iawn yn cael eu trefnu i drigolion sy'n dychwelyd adref ar ôl aros yn hir yn yr ysbyty?**

**Ymateb**

Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn gwneud asesiadau gydag unigolion sydd ag anghenion y gallai'r gwasanaethau cymdeithasol eu bodloni, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol neu weithwyr arbenigol nam ar y synhwyrau yn ymweld ag unigolion a drwy sgwrsio, arsylwi ac asesiadau swyddogaethol (gan gynnwys dadansoddi gweithgareddau) byddant yn ceisio canfod *beth sy'n bwysig* i'r unigolyn. Ar ôl dod i gytundeb gyda'r unigolyn ynglŷn â *beth sy'n bwysig*, mae'r ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth am y dewisiadau a'r manteision a'r risgiau cysylltiedig er mwyn galluogi'r unigolyn i wneud penderfyniad gwybodus am yr hyn sydd angen newid er mwyn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Bydd y gweithiwr wedyn yn darparu Cynllun Gofal a Chefnogaeth i'r unigolyn, gan gofnodi'r camau y cytunir arnynt a bydd yn trefnu, os yn briodol, i'r unigolyn ddefnyddio cyfleusterau cymunedol, cael help i wneud hynny, i addasiadau neu offer gael eu darparu yn y cartref, neu i ofal gael ei ddarparu fel sy'n ofynnol.

Caiff unigolion sydd yn yr ysbyty yn aml eu hasesu yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty, neu'n syth ar ôl dychwelyd adref, a darperir gofal cyn gynted â phosibl os oes angen. Pan ddychwelant adref, bydd y rhan fwyaf o unigolion sydd angen gofal yn cael gwasanaeth ail-alluogi sydd â'r nod o wneud pobl yn llai dibynnol a'u galluogi i fod mor annibynnol â phosibl. Gall yr unigolyn hwn wedyn o bosibl fyw heb gefnogaeth, neu bydd angen iddynt gael cefnogaeth gan ofal yn y cartref sydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cael ei gaffael oddi wrth asiantaethau preifat.
Gallaf gadarnhau bod unigolion, felly, yn cael asesiadau priodol fel y disgrifir uchod. Fodd bynnag, mae pwysau'r gaeaf pan fo nifer fawr o bobl hŷn yn yr ysbyty ac angen dychwelyd adref, ynghyd â'r heriau i recriwtio wedi arwain at oedi gyda rhai asesiadau dros y misoedd diwethaf. Rwy'n gobeithio y bydd capasiti staffio cynyddol sy'n cael ei gefnogi gan y Cyngor yn arwain at amseroedd ymateb cynt i'r dyfodol.

Nid oedd cwestiwn atodol.

12.2. **Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion gan y Cynghorydd Sir David Meredith**

**Sut mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i sicrhau cyn lleied â phosibl o oedi wrth drosglwyddo gofal?**

**Ymateb**

Mae'r bartneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn holl bwysig er mwyn sicrhau bod gofal i unigolion yn cael ei drosglwyddo'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn gweithio gyda nyrsys, aseswyr nyrsio, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion ac eraill o'r Bwrdd Iechyd i sicrhau eu bod yn cydweithio a bod gwybodaeth gywir a rheolaidd yn cael ei rhannu.

Mae'r ymarfer gweithio yn amrywio ar draws y sir, ond mae wardiau rhithwir, timau integredig ac ail-alluogi integredig yn galluogi i brosesau a ffurflenni asesu gael eu rhannu, gydag iechyd a gofal cymdeithasol gan ddefnyddio'r system gyfrifiadurol newydd (WCCIS). Mae gan Ofal Cymdeithasol hefyd weithwyr cymdeithasol sy'n gweithio yn y gwahanol ysbytai cyffredinol acíwt i helpu gyda throsglwyddo gofal.

Mae'r rheolwyr gweithredol hefyd yn mynychu galwadau cynadledda rheolaidd gyda rheolwyr iechyd o Bowys a thu hwnt er mwyn cynllunio'r ddarpariaeth gwasanaethau ar y cyd. Mae gan y ddau sefydliad eisoes drefniadau Adran 33 ar waith ar gyfer nifer o fentrau integredig ac ar y cyd a bydd hyn, o fis Ebrill ymlaen, yn cynnwys arian ar gyfer gofal preswyl.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cydweithio ehangach. Enw un prosiect o'r fath yw My Care My Home a'i nod penodol yw galluogi pobl i symud yn hwylus o'r ysbyty adref. Bydd y gwasanaeth hwn yn dechrau ar y 26ain o Chwefror yn ne'r sir.

Nid oedd cwestiwn atodol.

Gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod am 14.45. Cymerodd yr Is-gadeirydd y Gadair.

12.3. **Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Addysg gan y Cynghorydd Sir Phil Pritchard**

**Parthed Ysgolion newydd y Trallwng: Mewn cyfarfod cynnar o lywodraethwyr cyfun y 5 ysgol, addawodd y Swyddogion "ymgynghori" â PHOB FFYDD yn y Trallwng ynglŷn â'r mater hwn. A allwch ddweud wrthyf faint o'r 5 neu'r 6 Ffydd yr ymgynghorwyd â nhw mewn gwirionedd, a faint o gyfarfodydd a gynhaliwyd gyda nhw, a pha nodiadau/cofnodion a gadwyd o'r cyfryw gyfarfodydd?**

**Ymateb**

Yn ystod trafodaethau cynnar gyda rhanddeiliaid yn y Trallwng, gwahoddodd yr awdurdod Gyfarwyddwr Addysg Esgobaeth Llanelwy i gyfarfodydd y Grŵp

Rhanddeiliaid Lleol, gan fod un o'r ysgolion yn ysgol yr Eglwys yng Nghymru – Gungrog.

Yn ystod y cam ymgynghori ffurfiol, ymgynghorodd yr awdurdod â'r rhanddeiliaid perthnasol fel sy'n ofynnol dan y Cod Ad-drefnu Ysgolion. Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn amlinellu'r ymgyngoreion fel a ganlyn:

- Disgyblion (gan gynnwys Cynghorau Ysgolion), Rhieni, Darpar rieni, Staff a Chyrff Llywodraethu unrhyw ysgolion y mae'r Cynigion yn debygol o effeithio arnynt
- Unrhyw Gyngor lleol arall y mae hyn yn debygol o effeithio arno
- Yr Eglwys yng Nghymru a'r Cyngor Catholig Esgobaethol ar gyfer yr ardal lle lleolir unrhyw ysgol y mae hyn yn debygol o effeithio arni
- Undebau llafur addysgu a staff
- Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy'n ddarostyngedig i'r Cynigion
- Cynghorwyr Sir
- Consortiwm Addysg Rhanbarthol
- Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal
- Cynghorau tref a chymuned ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy'n ddarostyngedig i'r Cynnig
- Darparwyr blynyddoedd cynnar yn yr ardal leol
- Isadran Rheolaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru
- Estyn
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg).

Cyflwynwyd adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad i'r Cyngor llawn a phenderfynodd gefnogi'r cynigion i sefydlu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg newydd yn y Trallwng a'r Cabinet a wnaeth y penderfyniad.

Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Sir Pritchard ynglŷn â pham na ymgynghorwyd â phob ffydd, dywedodd y Deilydd Portffolio Addysg y byddai'n edrych i mewn i'r hyn a ddigwyddodd, er nad oedd yn sicr beth y byddai'n ei newid ar y pwynt hwn, gyda'r buddsoddiad eisoes wedi'i wneud.

12.4. **Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir Phil Pritchard**

**A allwch chi ddweud wrthyf beth oedd yr amser cyfartalog pan fo unedau'n "wag" (h.y. yr amser rhwng pan fydd un tenant yn gadael tŷ cyngor, a thenant newydd yn ei feddiannu) yn y flwyddyn diwethaf cyn i'r contractwr Kier gymryd drosodd, a beth yw'r amser cyfartalog pan fo unedau'n wag ers i'r contractwr hwn gymryd drosodd?**

**Er gwybodaeth, mae gennyf nifer o eiddo yn y Trallwng sy'n wag ers misoedd lawer, rhai dros 12 mis, ac un hyd y gwn i ers dros dair blynedd!!**

**Ymateb**

Cyfartaledd nifer y dyddiau a gymerwyd i ail-osod cartref cyngor gwag ar draws y Sir, yn y 12 mis cyn Gorffennaf 2017 (y dyddiad pan ddaeth HOWPS yn gyfrifol am atgyweiriadau ymatebol i dai) oedd 95.7 diwrnod.

Fe wnaeth cyfartaledd nifer y dyddiau a gymerwyd i ail-osod eiddo yn y 7 mis cyn sefydlu HOWPS gynyddu i 101.9 diwrnod, ac yn y 7 mis ers i HOWPS ddod yn gyfrifol am gyflenwi'r gwasanaeth atgyweirio, mae hwn wedi cynyddu i 103.1 diwrnod.

Yn ward y Cynghorydd Pritchard, cyfartaledd nifer y dyddiau a gymerwyd i ail-osod eiddo gwag oedd 107 diwrnod yn y 12 mis cyn Gorffennaf 2017, ac mae hwn wedi gostwng i 105 diwrnod yn y 7 mis ers i HOWPS ddod yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaeth atgyweirio.

Rhaid cofio na all pob eiddo gwag gael ei baratoi'n gyflym ac nad yw HOWPS yn delio â'r gwaith i bob eiddo gwag. Mae gofyn gwneud gwaith gwella sylweddol ar rai tai er mwyn cyrraedd safon gosod y cyngor, mae gofyn gwneud gwaith saernïol sylweddol ar eraill a chaiff rhai eu nodi fel rhai sy'n addas ar gyfer newid defnydd, megis eu haddasu. Mae'r unedau gwag hyn yn tueddu i gael eu trin y tu allan i'r broses unedau gwag arferol.

Dangosir hyn gan ddadansoddiad o'r 8 eiddo sy'n wag ar hyn o bryd yn ward y Cynghorydd Pritchard:

- Mae HOWPS wedi dychwelwyd 3 i'r Gwasanaeth Tai ac maent yn y broses o gael eu gosod,
- Mae 3 gyda HOWPS ar gyfer gwneud gwaith arnynt cyn eu hail-osod,
- Mae 1 yn y broses o gael gwaith addasu sylweddol wedi'i wneud arno er mwyn bodloni anghenion teulu penodol. Mae hyn yn cynnwys codi estyniad. Bu'r eiddo hwn yn wasg er mis Chwefror 2017, gan fod angen gwneud gwaith dylunio manwl, cael caniatâd cynllunio a rheoli'r contract y tu allan i'r trefniadau gyda HOWPS
- Gosodwyd system ysgeintiwr a system wresogi newydd mewn 1 eiddo, i gydymffurfio â'r gofynion diogelwch tân.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Pritchard am faint o incwm rhent a gollir oherwydd unedau sy'n wag yn hir, dywedodd y Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cefn Gwlad nad oedd ef yno i amddiffyn Heart of Wales Property Services a'i fod yn disgwyl gweld gwelliant yn yr amser a gymerir i baratoi unedau gwag.

12.5. **Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Eiddo a Gwastraff gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

**Mae Cyngor Sir Powys wedi rhoi'r gorau i gasglu plastig meddal oddi ar ochr y stryd. Roedd rhai cymunedau'n gweithio mewn partneriaeth â Chae Post ar fannau casglu plastig meddal yn eu hardal leol y gallai trigolion eu defnyddio. Yn anffodus, yn dilyn cyhoeddiad Cae Post ei fod wedi dirwyn ei gasgliadau gwastraff ac ailgylchu masnachol i ben, nid oes gan gymunedau bellach gwmni i weithio gyda nhw ar y math hwn o ddeunydd. A all y cyngor ystyried darparu i gymunedau'r gwasanaeth hwn tebyg i fel yr arferai Cae Post wneud?**

**Ymateb**
Un o’r prif resymau pam bod Cae Post wedi rhoi’r gorau i weithredu yw oherwydd na allent ddod o hyd i neb i gymryd y deunydd yr oeddent yn ei gasglu, yn enwedig y ffilm plastig. Dyma pam hefyd nad yw’r Cyngor wedi casglu’r deunydd hwn ers tro bellach ac felly ni fyddem mewn sefyllfa i gynnig y gwasanaeth hwn.

Oherwydd y sylw a roddwyd yn ddiweddar ar deledu oriau brig i wastraff plastig, mae’r uwchfarchnadoedd mawr yn awr yn gwneud ymdrechion i ddefnyddio llai o becynnau plastig. Dylai hyn, ynghyd â’r buddsoddiad cynyddol yn y seilwaith ailgylchu, olygu bod Cynghorau yn gallu ailgylchu mwy o’r gwastraff plastig a gynhyrchir.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Ratcliffe cadarnhaodd y Deilydd Portffolio Eiddo a Gwastraff ei gefnogaeth i ymgyrchoedd casglu sbwriel cymunedol a gofynnodd am drafodaeth bellach gyda’r Cynghorydd Ratcliffe.

12.6. **Cwestiwn i’r Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan**

**Beth yw’r costau hyd yma, a’r costau blynyddol i’r Cyngor ar gyfer defnyddio a rhentu’r storfa yn Hirddol, Machynlleth?**

**Ymateb**
Mae’r Gwasanaethau Cefn Gwlad yn rhentu gofod iard gan Dyfi Waste Services yn Hirddol, Penegoes, Machynlleth.
Dyma’r costau rhentu blynyddol:-
2011 - £1,296
2012 - £1,296
2013 - £1,296
2014 - £1,350
2015 - £1,400
2016 - £1,450
2017 - £1,450
Cyfanswm: £9,538 dros 7 mlynedd

Defnyddir iard Hirddol i storio deunyddiau ar gyfer Gwasanaethau Cefn Gwlad, gan gynnwys gatiau, camfeydd, pyst, offer grisiau, arwyddion, rheiliau ayb. Caiff rhai deunyddiau ar gyfer Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr eu storio yma hefyd. Mae’r Gwasanaeth yn swmp-brynu deunyddiau, lle bo modd, er mwyn cael disgownt. Mae swmp-prynu yn golygu bod angen storio’r deunyddiau. Mae’r gwasanaeth hefyd yn ceisio prynu eitemau pren ymlaen llaw, er mwyn eu sychu neu’u sesno, er mwyn ymestyn oes yr eitem. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod y cynhwysion a ddefnyddir i danaleiddio pren wedi newid ac nid yw pyst ayb. yn para mor hir mwyach. Gall cael eitemau pren wedi’u sychu a’u sesno i’w gosod ymestyn eu hoes.

Mae gan y Gwasanaethau Cefn Gwlad wirfoddolwyr a chontractwyr sy’n gweithio ar draws y sir gyfan. Mae gennym gwpl o ierdydd a ddefnyddir fel bod pobl yn gallu cael gafael ar ddeunyddiau heb orfod teithio ymhell. Pe na fyddai gan y Gwasanaeth y gofodau hyn, ni fyddem yn gallu storio deunyddiau a gallai costau’r gwasanaeth gynyddu. Mae cael ierdydd mewn mannau allweddol ar draws y sir yn cadw’r costau teithio i lawr. Hebddynt, byddai’n rhaid i’r Gwasanaeth wario llawer mwy ar deithio a chludo.

Mae'r Gwasanaethau Cefn Gwlad yn ceisio chwilio am yr ierdydd rhataf i'w rhentu ac maent wedi cysylltu â Depos Priffyrdd yn y gorffennol. Os oes dewis i storio deunyddiau'n ddiogel yn y lleoliadau iawn am ddim, yna byddai'r Gwasanaeth yn falch o glywed amdanynt. Byddai angen i unrhyw safle newydd fod yn ddiogel, darparu storfa dan do, bod â mynedfa hawdd, gofod troi/parcio a bodloni'r gofynion Iechyd a Diogelwch.

Nid oedd cwestiwn atodol.

12.7. **Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Eiddo a Gwastraff gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

**Mae trigolion Powys yn gwbl ymwybodol bod gan CSP nifer o faterion pwysig i ddelio â nhw ar y foment o safbwynt trosglwyddo asedau rhyngddo ef a chymunedau.**

**Byddai Cyngor Tref y Gelli yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r cabinet ac adran gyfreithiol Powys i symud hyn ymlaen o safbwynt y Gelli cyn gynted â phosibl. Felly, fel yr aelod lleol dros y Gelli, hoffwn ofyn a yw'n bosibl i'r deilydd portffolio perthnasol a'r tîm cyfreithiol gyfarfod gyda chynrychiolwyr y Cyngor Tref a minnau, i fwrw ymlaen a chwblhau'r materion sy'n ymwneud â'r broses trosglwyddo asedau yn y Gelli**.

**Ymateb**
Mae'r Cabinet yn fwy na bodlon gweithio gyda Chyngor Tref y Gelli ac i'r perwyl hwn cyfarfu'r Cyngor Tref gyda'r Cabinet llawn ar 12fed Medi 2017. Yn y cyfarfod hwnnw, gofynnwyd am ddogfennau ychwanegol gan y Cyngor Tref ac ni roddwyd y dogfennau hyn i'r Awdurdod hwn tan 18fed Ionawr 2018. Bydd adroddiad yn dod gerbron y Cabinet ym mis Mawrth / Ebrill 2018. Darparwyd y wybodaeth uchod i Gadeirydd y Cyngor Tref yn ddiweddar gan Dwrnai'r Cyngor.

Nid oedd cwestiwn atodol.

12.8. **Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Priffyrdd gan y Cynghorydd Sir David Selby**

**Pa gynnydd sy'n cael ei wneud i gynllunio ar gyfer tynnu statws cefnffordd oddi ar yr A489 drwy'r Drenewydd ar ôl i'r Ffordd Osgoi agor y flwyddyn nesaf?**

**Ymateb**
Cyhoeddwyd y llwybr a ffafrir ar gyfer y ffordd osgoi ym mis Hydref 2010 gyda'r Gweinidog Cymreig yn rhoi'r gymeradwyaeth derfynol yn 2015. Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Mawrth 2016 gyda'r gwaith i fod i gael ei gwblhau yn ystod gwanwyn 2019.
Unwaith y bydd y ffordd osgoi ar agor bydd Cyngor Sir Powys wedyn yn dod yn gyfrifol fel yr Awdurdod Priffyrdd am yr hen rannau o'r A483 a'r A489 a fydd wedi colli'u statws cefnffordd drwy'r Drenewydd yn ogystal ag unrhyw ffyrdd cysylltu a adeiladir o'r newydd.
Ers cyhoeddi'r ffordd osgoi bu Cyngor Sir Powys yn cysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn ag amrywiol faterion gan gynnwys:

- Y safonau adeiladu ar gyfer y cysylltiadau ffyrdd newydd

- Gwaith sy'n ofynnol i rannau'r hen gefnffyrdd (A483 / A489) i'w codi i safon dderbyniol
- Materion Draenio tir
- Cau ffyrdd lleol yn ystod y gwaith adeiladu
- Rhifo Ffyrdd, Cyfyngiadau cyflymder ac Arwyddion
- Teithio Llesol.

Cyn i Gyngor Sir Powys ddod yn gyfrifol am yr hen rwydwaith cefnffyrdd, cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru i arolygu cyflwr y ffyrdd a nodi unrhyw waith sy'n ofynnol i'w codi i safon resymol. Mae'r arolwg wedi cynnwys cyflwr y ffyrdd a chanfod unrhyw waith sy'n ofynnol i'w codi i safon resymol. Mae'r arolwg wedi cynnwys y lonydd, pontydd, waliau cynnal, draeniau a goleuadau stryd. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cytuno ar gwmpas y gwaith a'r costau. Y gobaith yw cael cadarnhad ffurfiol o'r trefniadau gan Lywodraeth Cymru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Aeth trafodaethau rhagddynt hefyd gyda chwmnïau cyfleustodau i geisio sicrhau bod unrhyw waith sy'n cael ei atal dros dro yn ystod y gwaith o adeiladu'r ffordd osgoi yn cael ei gwblhau cyn unrhyw waith ail-wynebu sylweddol.

Ymgynghorwyd â'r Cyngor Tref, y Siambr Fasnach a Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru yn fuan yn y broses, er hynny, ni chaiff trafodaethau pellach eu cynnal nes i'r trafodaethau rhwng Cyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru gael eu cwblhau. Ar ôl dod i gytundeb, eir ati i ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid allweddol. Ar hyn o bryd, dim ond cyllid i wella cyflwr yr hen gefnffordd i'r safon ofynnol sydd wedi'i nodi.

Mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddenu cyllid Teithio Llesol pellach gan Gronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru i wneud gwaith yn y Drenewydd. Mae'r rhain yn cynnwys llwybr seiclo/cerdded newydd yn Lôn y Blanhigfa, Gwaith glan afon, cyswllt â'r rhandiroedd a gwaith lledu'r llwybr ar hyd ffordd Llanidloes.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Selby, cytunodd y Deilydd Portffolio y byddai'n ddefnyddiol cynnwys aelodau lleol yn y gwaith o gynllunio ar gyfer tynnu statws cefnffordd yr A489.

12.9. **Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Adnoddau Dynol, TGCh a Chyfathrebu gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts**

**Yn y cyngor llawn diwethaf, dyfynnwyd £600k fel y gost i'r cyngor pe ceid gwyliau banc ar ddydd Gŵyl Ddewi. Ar y pryd, nid oedd dadansoddiad o'r costau hyn ar gael. A allech chi felly roi dadansoddiad o'r costau y byddai'r Cyngor yn eu hwynebu, gan wahanu'n benodol y costau a fyddai'n deillio o gynhyrchiant a gollir h.y. diwrnod ychwanegol i ffwrdd, oddi wrth y costau lle ceid gwir gost ychwanegol i'r Cyngor ee taliadau goramser? A allech chi hefyd nodi'r gost pe cymerid Dydd Gŵyl Ddewi fel gŵyl banc yn lle gŵyl banc Calan Mai?**

**Ymateb**
Y ffigur a ddarparwyd yng nghyfarfod y cyngor oedd £600k sef cyfanswm y bil cyflogau am un diwrnod. Fe wnaeth y cyfrifiad hwn gymryd cyfanswm y bil cyflogau blynyddol gan gynnwys argostau a chyfrifo 1 diwrnod o'r 260 diwrnod

gwaith posibl. Oherwydd y byddai rhan fwyaf o staff y cyngor yn dal i gael eu talu am y diwrnod ond ddim yn gweithio. Diwrnod anghynhyrchiol â chyflog.

Nid ydym ar hyn o bryd wedi cyfrifo cost ychwanegol wirioneddol gŵyl banc ychwanegol, ar gyfer llawer o staff a gyflogir (a fyddai'n cael eu talu am yr ŵyl banc ychwanegol yn eu cyflog presennol) byddai'r gwaith nas gwblhawyd y diwrnod hwnnw yn cael ei gwblhau pan fyddent yn dychwelyd a'i reoli fel rhan o'u gwaith parhaus a'r trefniadau gweithio oriau hyblyg dros yr wythnosau canlynol. Felly, yn y rhan fwyaf o achosion, byddai yna faich ariannol ychwanegol.

Ceir wrth gwrs rai meysydd lle ceid cost ychwanegol, er enghraifft, mewn rhai meysydd gwasanaeth, byddai gofyn i staff fod ar ddyletswydd ar y diwrnod, mae'n bosibl y byddai staff asiantaethau ychwanegol yn ofynnol i ddal i fyny â'r diwrnod gwaith a gollwyd, neu gallai'r awdurdod golli incwm o wasanaethau y codir tâl amdanynt. Mae'n bosibl hefyd yr arbedir rhai costau yn sgil diwrnod ychwanegol pan na fydd staff yn gweithio, ee. Costau glanhau, gwresogi, goleuadau ayb. a byddai angen cynnwys y rhain hefyd.

I ddeall yr effaith yn llawn, byddai gofyn gwneud ymarferiad hir ac ni fyddai hwn ond yn cael ei wneud pe byddai'r cynnig yn bwrw ymlaen ymhellach.

Pe byddai dydd Gŵyl Ddewi yn disodli Gŵyl Banc Calan Mai, yna nid yw'r costau yn debygol o newid yn sylweddol oherwydd y byddai un yn disodli'r llall, er hynny byddai angen i hyn gael ei archwilio ymhellach hefyd.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Roberts, ni dderbyniodd y Deilydd Portffolio Adnoddau Dynol, TGCh a Chyfathrebu bod ei ymyrraeth yn y ddadl yn y cyfarfod diwethaf ar ŵyl banc Dydd Gŵyl Ddewi wedi newid canlyniad y ddadl.

12.10. **Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts**

**Mae methiant lleiafrif o berchnogion cŵn â chadw eu hanifeiliaid dan reolaeth a glanhau ar eu hôl wedi dod yn broblem gynyddol ar draws y Sir. A fyddai'r Deilydd Portffolio yn ystyried cyflwyno gorchymyn rheoli tebyg i'r hyn a ddefnyddir yn Rhondda Cynon Taf i fynd i'r afael â'r broblem ar dir ac ardaloedd hamdden sy'n eiddo i'r cyngor?**

**Ymateb**

Mae gan Gyngor Sir Powys ar hyn o bryd bwerau dan Orchymyn (Cŵn yn Baeddu) Cyngor Sir Powys 1998 i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig i berchnogion cŵn sy'n gadael i'w cŵn faeddu ar dir dynodedig a pheidio â'i lanhau. Caiff tir dynodedig ei ddiffinio'n eang ac mae'n cynnwys priffyrdd sydd â chyflymder uchaf o 40 milltir yr awr neu lai, tir cyhoeddus y mae gan y cyhoedd fynediad iddo o fewn ffiniau trefi neu bentrefi, a chaeau chwarae, parciau, meysydd chwarae, a mynwentydd cyhoeddus neu breifat. Erys y Gorchymyn mewn grym er cyflwyno Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd a Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

Nod Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus yw atal unigolion neu grwpiau rhag ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus. Mae cynghorau yn cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) ar ôl ymgynghori â'r Heddlu, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a chyrff perthnasol eraill.

Mae angen i awdurdodau lleol fod yn fodlon mai PSPO yw'r ymateb mwyaf priodol i'r ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n peri pryder ar ôl ystyried cyfryngau eraill sydd ar gael iddynt i fynd i'r afael â'r broblem. Byddai cydgasglu gwybodaeth am natur ac effaith yr ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n destun y PSPO yn ffurfio elfennau craidd y broses casglu tystiolaeth ac ymgynghori er mwyn penderfynu a yw'r gofynion dan adran 59 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 wedi'u cyflawni. Byddai angen i'r dystiolaeth gael ei hystyried cyn y gall awdurdodau benderfynu a yw'n briodol ac yn gymesur cyflwyno PSPO ai peidio.
Anogir y cyhoedd sy'n dystion i achosion o gŵn yn baeddu ddweud wrth y cyngor am y mater ar tls.helpdesk@powys.gov.uk

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Roberts ar a fyddai'r gwasanaeth yn ystyried darparu gwybodaeth bellach i berchnogion cŵn, dywedodd y Deilydd Portffolio y byddai'n croesawu trafodaeth lawer ehangach ar reoli cŵn.

12.11. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

**A wnaiff yr Arweinydd wneud datganiad ar sut mae ei gweinyddiaeth yn gweithio gydag Undebau Credyd ym Mhowys ac yn eu cefnogi?**

**Ymateb**
Mae Undebau Credyd ym Mhowys wedi gweithio gyda'r cyngor er dechrau'r 2000au pan sefydlwyd y cynllun didyniad o'r gyflogres. Ers hynny bu'r undebau credyd yn gallu hyrwyddo eu gwasanaeth (drwy'r mewnrwyd, posteri ac wyneb yn wyneb yn swyddfeydd y cyngor) i weithwyr, sy'n gallu cael mynediad i fenthyciadau am gost isel sy'n cael eu rheoli drwy'r gyflogres bob mis.

Mae gwasanaethau yn y cyngor yn ymgysylltu â sefydliadau sy'n cefnogi'r agenda cynhwysiant ariannol, a gwahoddwyd undebau credyd i fynychu digwyddiadau rhwydweithio.

Er na roddir dim arian grant i undebau llafur, mae'r cyngor yn caniatáu rhyddhad ardrethi dewisol, ac felly nid yw undebau credyd yn gorfod talu NNDR.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance, cytunodd yr Arweinydd i gyfarfod ag ef a chynrychiolwyr ei undeb credyd lleol i drafod cydweithredu pellach.

12.12. **Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

**Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i helpu rhentwyr preifat a rhoi pen ar landlordiaid drygionus?**

**Ymateb**
Mae'r cyngor yn defnyddio'i bwerau i'r eithaf i sicrhau bod tenantiaid sector preifat yn cael eu diogelu'n ddigonol yn erbyn peryglon yn y sector rhent preifat. Mae manylion sut yr ymdrinnir â chwynion a gorfodaeth cysylltiedig â thai wedi'u darparu yn y daflen sydd ynghlwm.

Mae landlordiaid 'drygionus' yn ei chael yn fwyfwy anodd i weithredu yng Nghymru o ganlyniad i gyflwyno Rhentu Doeth Cymru, cynllun cenedlaethol ar

gyfer cofrestru a thrwyddedu landlordiaid y sector preifat. Gall tenantiaid yn awr weld a yw eiddo wedi'i gofrestru'n briodol drwy'r ddolen gyswllt ganlynol: https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/check-register/

Mae cyngor am ddim ar gael i landlordiaid a thenantiaid o'r llyfrgell adnoddau yn Rhentu Doeth Cymru ac maent i'w gweld drwy'r ddolen ganlynol: https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/resource-library/

Yng ngoleuni cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu landlordiaid cenedlaethol ar gyfer y sector preifat, mae Powys wedi sefydlu cwrs hyfforddiant cymeradwyo i landlordiaid i hwyluso hyfforddiant lleol a hybu pobl i gydymffurfio. Mae Powys, un o ddim ond dau awdurdod yng Nghymru wedi ennill yr achrediad, ac wedi hynny wedi hyfforddi dros 500 o landlordiaid lleol, mewn amrywiol leoliadau ar draws y sir, dros yr 20 mis diwethaf.

Mae Tai Sector Preifat hefyd yn mynd ati i godi ceisiadau am wasanaeth gyda Rhentu Doeth Cymru ac yn cyflwyno llythyrau i landlordiaid lleol nad ydynt yn cydymffurfio. Mae Rhentu Doeth Cymru wedyn yn cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach o safbwynt diffyg cydymffurfio drwy ddefnyddio hysbysiadau cosb benodedig ac erlyn os oes angen, yn unol â'r memorandwm dealltwriaeth a fabwysiadwyd yn genedlaethol.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance, cadarnhaodd y Deilydd Portffolio ei gefnogaeth i'r gwasanaeth Tai am gyfranogi mewn cynllun rhag bod tenantiaid yn gorfod mynd drwy asiantau gosod a wynebu ffioedd.

12.13. **Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir William Powell**

**Pa beirianweithiau y mae'r Aelod Cabinet a'i dîm swyddogion yn eu defnyddio i sicrhau bod datblygiadau preswyl ar draws y Sir, yn ardaloedd cynllunio Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (BBNPA), yn cyfateb i angen y gellir ei ddangos am dai, o ran nifer a math.**

**Yn achos datblygiad(au) yn ardal BBNPA, sut mae Cyngor Sir Powys, fel yr awdurdod tai, yn sicrhau bod arian a ddyrennir fel cyfraniadau tai fforddiadwy yn cael eu buddsoddi mewn datblygiad(au) fforddiadwy o fewn ffiniau'r sir – ac yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor?**

**Ymateb**
Y brif ffynhonnell ddata ynglŷn â'r angen am dai yw'r Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), ac un o ofynion Llywodraeth Cymru yw eu bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd a'u diwygio'n llawn bob 5 mlynedd (Canllaw LIC 2006). Cafodd LHMA Powys ei adolygu yn 2016 fel rhan o broses y CDLl ac mae'n cael ei adolygu'n llawn ar hyn o bryd. Ochr yn ochr â hwn rydym yn defnyddio data oddi ar y Gofrestr Tai Cyffredin (CHR) sy'n cadw'r holl geisiadau tai cymdeithasol ar ein cyfer ni a'r Cymdeithasau Tai.

Mae'r LHMA ar gyfer Powys yn dadgyfuno ardal BBNPA gan ganiatáu i'r awdurdod cynllunio fynediad clir i ddata penodol ar gyfer yr ardal o Bowys sydd o fewn ei reolaeth.

Drwy ddefnyddio'r ffynonellau data hyn, rydym yn gallu dylanwadu ar ddyluniad cynlluniau datblygiadau fel eu bod yn cyfateb i angen yn awr a, chyn belled â phosibl, i'r dyfodol.

Mae sut y caiff arian a geir fel cyfraniadau tai fforddiadwy ei wario yn BBNPA yn cael ei lywodraethu gan Ganllawiau Cynllunio Atodol (SPG) yr awdurdod hwnnw, sydd â dull rhaeadru penodol o ran lle gellir defnyddio arian o'r fath, ac sy'n nodi'n glir na ddylai'r defnydd hwn o'r arian groesi naill ai ffiniau Awdurdodau Unedol na chael ei wario y tu allan i BBNPA. Mae Powys wedi ymrwymo i weithredu yn unol â'r SPG hwn.

Mae cais diweddar gan Bowys i dderbyn cyllid gan BBNPA i'w ddyrannu i ddatblygiad yn agos iawn i lle derbyniwyd y cyllid wedi cael ei wrthod ac rydym yn ystyried apelio.

Mae Cyngor Sir Powys wedi mynegi ei anghytundeb gyda'r ffaith bod BBNPA yn dal y cyfryw gyllid ond hyd yma, nid yw wedi gallu cael ateb ynglŷn â beth oedd y cyngor cyfreithiol a roddwyd i BBNPA ac y maent wedi seilio'r rheolaeth hon arno.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Powell, dywedodd y Deilydd Portffolio y byddai'n holi'r Arweinydd ynglŷn ag uwchgyfeirio hyn o bosibl at Weinidog Llywodraeth Cymru dros Dai ac Adfywio a'r Amgylchedd.

12.14. **Cwestiwn i'r Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cefn Gwlad gan y Cynghorydd Sir William Powell**

**Yn ei adroddiad yn ddiweddar, dywedodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Cynulliad mai araf fu'r cynnydd ar draws Cymru yn cyflenwi ffordd o fyw 'uwchben siopau' fforddiadwy. Beth mae Cyngor Sir Powys yn ei wneud ar hyn o bryd, gydag asiantaethau partner, i wneud cyfraniad pendant i roi sylw i'r her hon yn y Sir?**

**Ymateb**

Ceir nifer o bethau sy'n cyfyngu ar eiddo gwag uwchben siopau. Er mwyn eu gosod fel cartrefi mae fel arfer angen cael mynediad ar wahân fel nad oes angen i denantiaid fynd i mewn drwy'r eiddo masnachol. Nid yw'r posibilrwydd hwn i'w gael mewn llawer ohonynt.

Yn yr un modd ceir problemau gyda threfniadau prydlesau, cost adnewyddu neu ail-ddylunio, gofynion cynllunio a phriffyrdd (parcio), gyda phob un o'r rhain yn ychwanegu at anhawster gwneud datblygiadau o'r fath yn hyfyw hyd yn oed gyda chymorth grant Cymdeithas Tai.

Bydd y Cynghorydd Powell yn ymwybodol o'r broblem sy'n bodoli ers tro gyda Liverpool House yn Nhalgarth. Rydyn ni, er hynny, yn ystyried cynlluniau o'r fath yn fanwl.

Mae ein tîm Tai Sector Preifat yn rhedeg cynlluniau cyllid benthyciadau llwyddiannus iawn sydd wedi galluogi llawer o berchnogion siopau a landlordiaid, gan gynnwys yn Nhalgarth, i ailddechrau defnyddio eu fflatiau uwchben siopau, gwag eto. Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser ar gael ar lefelau rhent fforddiadwy oherwydd y gost i'r landlordiaid y mae angen iddynt ei hadennill.

Mae'r Cyngor yn cynnig amrywiol gynhyrchion ariannol a fwriedir i annog adfywio trefol, ar ffurf benthyciadau di-log cylchol. Er na fwriedir y rhain yn benodol ar gyfer fflatiau uwchben siopau nac i gyflenwi unedau fforddiadwy, defnyddiwyd ein cynllun Benthyciadau Canol Trefi i roi sylw i faterion o'r fath. Mae'r cynllun nid yn unig yn caniatáu ar gyfer adnewyddu unedau preswyl gwag segur uwchben siopau, ond mae hefyd yn cynnwys adnewyddu'r gofod adwerthu oddi tano, gan alluogi perchnogion i wella'r adeilad cyfan.

Mae manylion y cynllun hwn ynghyd â'n cynhyrchion ariannol eraill wedi'u cynnwys yn y taflenni sydd ynghlwm ar Fenthyciadau adnewyddu a gwella eiddo.

Nid oedd cwestiwn atodol.

**Cynghorydd Sir D E Davies (Cadeirydd)**